*Datganiad i'r Cyfryngau*
*9 Hydref 2024*
*I'w ryddhau ar unwaith*

# Ffilmiau Cymreig sy'n Ymddangos mewn Sinemâu dros y Gaeaf Hwn

Os ydych chi'n gobeithio llenwi'ch calendr gyda ffilmiau Cymreig ac eistedd o flaen y sgrin fawr mewn sinema glyd, mae gennym ni restr o ffilmiau i chi dros y gaeaf hwn.

Mae 2024 eisoes wedi bod yn flwyddyn brysur i ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig. Eleni rhyddhawyd ffilmiau dramatig megis *The Almond and the Seahorse, Unicorns and Chuck Chuck Baby,* a'r animeiddiad epig; *Kensuke's Kingdom.* Roedd cyfweliad Gwnaethpwyd yng Nghymru arbennig ar gael i bob un i gyflwyno'r cysylltiadau Cymreig i gynulleidfaoedd.

Mae hyd yn oed fwy ar y gweill i ni eu mwynhau, gan gychwyn gyda *Timestalker,* sydd yn cael ei rhyddhau 11 Hydref. Mae'r cyfarwyddwr Alice Lowe yn creu siwrnai carmig, doniol, sydd weithiau'n dreisgar, sy'n dilyn yr arwres anlwcus, Agnes, sy'n ailymgnawdoli ar ôl ailadrodd yr un camgymeriad: sef cwympo mewn cariad gyda'r dyn anghywir. Mae gan y ffilm nifer o gysylltiadau Cymreig, o'r cynhyrchydd, Vaughan Sivell, i'r actor Aneurin Barnard, a ffilmiwyd ar gyfer cyfweliad Gwnaethpwyd yng Nghymru'r wythnos yma. Fe'i ffilmiwyd yng Nghaerdydd a Thŷ Penpont yn Aberhonddu.

**Esbonia'r Cynhyrchydd, y Cymro Vaughan Sivell:**

*"Ers fy ffilm gyntaf, Third Star, rydyn ni wedi llwyddo i ffilmio nifer o'n ffilmiau'n rhannol gartref yng Nghymru, ond yn yr achos yma, fe lwyddon ni ffilmio Timestalker yn ei gyfanrwydd yng Nghymru. Bannau Brycheiniog oedd Ucheldiroedd yr Alban, Tŷ Penpont oedd Lloegr Sioraidd a Bae Caerdydd oedd Efrog Newydd y 1980au! Roedd y criw o Gymry yn rhagorol, ac fe gawsom ni amser anhygoel. Dw i'n edrych ymlaen yn fawr i gynulleidfaoedd lleol weld y ffilm ar y sgrin fawr."*

Fis Tachwedd, mae gennym ni ddwy ffilm ddogfen sydd â themâu o bwys rhyngwladol. Yn gyntaf, *India's 1st Best Trans Model Agency*, gan y cyfarwyddwr sy'n byw yn Sir Benfro, Ila Mehrotra, a ddaw i'r sgrin fawr 11 Tachwedd, yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Pobl Drawsryweddol. Mae'r siwrnai emosiynol yma a ffilmiwyd ar hyd saith blynedd, yn dilyn stori hynod Rudrani Chettri, ei ffrindiau a'r gymuned drawsryweddol yn Delhi wrth iddynt greu asiantaeth modelau traws cyntaf India. Mae'r ffilm yn edrych ar gymhlethdod 'trydydd rhywedd' India, sef Hijra, lle mae gwerthoedd traddodiadol a hawliau dynol yn gwrthdaro. Daw'r ffilm â straeon cyfarwydd o gariad a cholled, gobaith a thlodi, harddwch, swyn a gogoniant y catwalk.

Ddydd Gwener 22 Tachwedd caiff y ffilm sydd wedi ennill sawl gwobr, *O R Tambo's London Recruits* ei rhyddhau i gynulleidfa ehangach mewn sinemâu, drwy'r hyn y mae'r trefnwyr yn ei alw'n 'Rhyddhad y Bobl'. Mae'r ffilm, a ddisgrifiwyd gan Variety fel *'ffilm ddogfen gyffrous sy'n eich cadw chi ar flaen eich sedd*', wedi'i gosod ar anterth apartheid

yn y chwedegau hwyr / saithdegau cynnar. Mae grŵp o actifyddion dosbarth gweithiol, gwrth-hiliol yn Llundain ateb galw cyfrinachol Oliver Tambo am asiantiaid cudd i ddod â gobaith i'w bobl ddiobaith yn Ne Affrica. Mae'r rhyddhad yn cael ei drefnu mewn partneriaeth â'r mudiad Undeb Masnach ac mewn cydsafiad â'r sefydliad o Dde Affrica, ACTSA, mewn ymateb i derfysgoedd hil ledled y DU. Bydd sgwrs banel allweddol yn dilyn y ffilm, i drafod sut y gall bob un ohonom gyfrannu at Brydain wrth-hiliol.

**Esbonia'r Cyfarwyddwr, y Cymro Gordon Main pam fod rhyddhau ffilmiau megis London Recruits mor bwysig:**

*"Gydag adain dde eofn ar ein strydoedd unwaith eto, mae'r ffilm yma'n cynnig dewis arall pwerus, gwrth-hiliol i gasineb. Fe fentrodd y London Recruits eu rhyddid er mwyn creu byd gwell. Maen nhw'n ysbrydoliaeth. Wedi'i ffilmio yng Nghymru a De Affrica, mae'r ffilm yn gydweithrediad balch rhwng Cymru a De Affrica. Mae'n arddangos talent a lleoliadau arbennig yn y ddau le, ac yn rhan o sgwrs artistig a diwylliannol ehangach, sy'n gweld partneriaethau creadigol Cymreig / Affricanaidd yn hollbwysig ar gyfer Cymru ddiwylliannol iachus, rhyngwladol, sy'n edrych allan."*

Mae'r ail ffilm gan y Cyfarwyddwr Sambiaidd Cymreig, Rungano Nyoni: *On Becoming a Guinea Fowl* hefyd yn uchafbwynt ar y gorwel. Mae'r ffilm yn dilyn Shula wrth iddi yrru ar hyd ffordd wag yng nghanol y nos a darganfod corff ei hewythr annwyl Fred. Wrth i drefniadau'r angladd ddwyn ffrwyth o'u hamgylch, mae Shula a'i chefndryd yn taflu goleuni ar gyfrinachau eu teulu Sambiaidd dosbarth canol. Cadwch lygad barcud am ddyddiad rhyddhau, a gyhoeddir yn fuan.

Gall y rheiny sy'n hoff o ffilmiau gwaedlyd hefyd edrych ymlaen at y ffilm uchelgeisiol, fychan ei chyllideb, *Scopohobia* gan y cyfarwyddwr ac ysgrifennwr o Gymru, Aled Owen yr Hydref hwn, yn ogystal â *Protein* am lofrudd cyfresol sy'n byw a bod yn y gampfa, a ddaw cyn bo hir gan dîm o gynhyrchwyr o Gymru, Craig Russell, Tom Gripper a Dan Bailey. Crëwyd y ddwy ffilm yn ninas Abertawe a'i chyffiniau. Gall gynulleidfaoedd hefyd barhau i fwynhau dangosiadau o'r ffilm arswyd gwerinol Prydeinig, *Starve Acre*, sy'n serennu'r actorion o Gymru, Morfydd Clark ac Erin Richards.

***Hana Lewis, Rheolwr Canolfan Ffilm Cymru'n esbonio sut fydd y prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru'n cefnogi'r ffilmiau hyn wrth iddynt gael ei rhyddhau:***

*"Drwy ein prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru, rydyn ni'n cydweithio'n agos gyda'r rheiny sy'n dal hawlfraint y ffilmiau, er mwyn hyrwyddo'r ffilmiau. Rydyn ni'n creu cynnwys megis cyfweliadau gyda thalent ac erthyglau golygyddol sy'n dwyn sylw i elfennau megis themâu neu leoliadau, y gallai fod yn ddiywybod i gynulleidfaoedd. Mae'n holl bwysig bod y ffilmiau hyn yn cyrraedd cymunedau mewn sinemâu, gan eu bod yn helpu ni i weld Cymru ar y sgrin, ac yn helpu'r byd i'n gweld ni. Gallwn archwilio ein hunaniaeth ddiwylliannol mewn ffyrdd Newydd, gan roi llais i'r rheiny sy'n adrodd straeon amrywiol, a herio canfyddiadau ystrydebol ynglŷn â Chymru."*

Mae prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru (GYNg) Canolfan Ffilm Cymru Film Hub Wales' yn dathlu ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig. Mae'n cynnig gweithgareddau ar hyd y flwyddyn mewn partneriaeth ag arddangoswyr yng Nghymru, gan gynnwys catalog ffilmiau, sy'n gartref i dros 1000 o ffilmiau hir a byr a phodlediad Gwnaethpwyd yng Nghymru. Gall gynulleidfaoedd gael diweddariadau ynglŷn â ffilmiau Cymreig sydd ar ddod a'r cyfweliadau diweddaraf drwy ddilyn @Madeinwales_ ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae GYNg yn bosib drwy gyllid Cymru Greadigol a Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (RhCFf) y BFI. Mae RhCFf y BFI yn cynnig cefnogaeth i arddangoswyr ledled y DU, er mwyn hybu rhaglennu diwylliannol ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol. Yng Nghymru, arweinir y gweithgarwch gan Ganolfan Ffilm Cymru, dan reolaeth Chapter.

## Ffilmiau Cymreig sy'n dod i'r sgrin fawr yn 2024

*Rydyn ni wedi ychwanegu dolenni 'Ble i wylio' lle fo'r wybodaeth ar gael. Byddwn yn diweddaru ein gwefan gyda gwybodaeth ychwanegol wrth iddo gael ei gyhoeddi.*

**Starve Acre**
**Dyddiad Rhyddhau:** 6 Medi 2024
**Tystysgrif:** 15
**Talent o Gymru:** Cast: Morfydd Clark, Erin Richards
**Crynodeb:** 1970s, Lloegr wledig. Mae bywyd teuluol delfrydol Richard a Juliette yn dechrau chwalu pan fydd eu mab Ewan yn cychwyn ymddwyn yn od, gan greu anawsterau anorchfygol rhwng y cwpl hapus. Yn Starve Acre, eu cartref anghysbell, mae'r archeolegwr Richard yn taflu ei hun i'w archwiliad o fytholeg werinol sy'n honni bod gan y goeden dderw sydd ar eu tir bwerau rhyfeddol. Wrth i Juliette droi at y gymuned leol am heddwch, mae archwiliad Richard yn dwysáu. Cyn bo hir mae darganfyddiad annisgwyl yn meddiannu sylw'r cwpl ac mae grymoedd tywyll a sinistr, a ganiateir i mewn i'r cartref yn ddiarwybod, yn cynnig posibilrwydd annifyr o ailgysylltu rhyngddynt.
**Ble i wylio**

**Scopophobia**
**Dyddiad Rhyddhau:** 24 Awst 2024
**Tystysgrif: Dim tystysgrif**
**Talent o Gymru:** Cyfarwyddwr: Aled Owen, Cynhyrchydd: Aled Owen, Ioan Ings, Ysgrifennwr: Aled Owen, Cast: Catrin Jones, Ellen-Jane Thomas, Emma Stacey, Bethany Williams Potter
**Crynodeb:** Mae pedair merch yn mynd i ffatri segur i geisio adennill arian sydd wedi'i ddwyn. Wedi'u cloi y tu mewn a'u hela, y gyfrinach sy'n eu clymu ynghyd fydd yr hyn sy'n eu rhwygo'n ddarnau.
**Ble i wylio**

**Timestalker**
**Dyddiad Rhyddhau:** 11 Hydref 2024
**Tystysgrif:** 15
**Talent o Gymru:** Cast: Aneurin Barnard, Cynhyrchydd: Vaughan Sivell
**Crynodeb:** Mae *Timestalker* yn siwrnai carmig sy'n dilyn yr arwres anlwcus, Agnes, sy'n ailymgnawdoli ar ôl iddi ailadrodd yr un camgymeriad: sef cwympo mewn cariad gyda'r dyn anghywir. Mae'r ffilm yn stori wefreiddiol am anwyldeb cyfeiliornus, chwant di-alw a dial. Un stori, sawl cyfnod – pob un yn llawn o'r wefr a'r gorlifiadau blêr a ddaw wrth fentro i ddilyn eich calon. Neu efallai eich lwynau… Mae'r ffilm yn argoeli i fod yn stori ddoniol, dreisgar sy'n crynhoi'r sefyllfa ramantus fenywaidd mewn cyfnodau lluosog.

*Ariannwyd y ffilm gan y BFI a Chronfa Cynhyrchu Ffilmiau Hyd Llawn Ffilm Cymru Wales - cyfuniad o gyllid gan y Loteri Genedlaethol, a ddirprwywyd trwy Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) a Chymru Greadigol. Fe'i cefnogwyd hefyd gan Head Gear Films a Popcorn Group.*

**Portraits of Dangerous Women**
**Dyddiad Rhyddhau:** 11 Hydref 2024
**Tystysgrif:** 15
**Talent o Gymru:** Mark Lewis Jones (enillydd Gwobr Sian Phillips BAFTA Cymru 2024)
**Crynodeb:** Mae bywydau tri dieithryn yn gwrthdaro yn dilyn damwain ffordd ryfedd. Ar ôl y cythrwfl cychwynnol, maent yn penderfynu delio â'r cyfan heb gynnwys yr heddlu. Mae'r triawd annhebygol yn ffurfio cynghreiriau anarferol ac wrth i'w gorffennol ddatod a thyfu'n agosach fyth, maent yn darganfod yn annisgwyl ymdeimlad dwfn o garennydd.

**Trailblazers**
**Dyddiad Rhyddhau:** Allan nawr
**Tystysgrif:** Dim tystysgrif, ffilm fer
**Talent o Gymru:** Cynhyrchydd: Ronan Williams, ffilmiwyd yng Nghaerdydd, themâu Cymreig – dilyn y sin cwiar de Asiaidd yng Nghymru.
**Crynodeb:** Mae Asiaidd Purrsasaidd wedi newid y syniad o sut y gall cymuned LHDTC Cymru weithio. Gan gydweithio â'r Welsh Ballroom a'r Queer Emporium maent wedi sicrhau bod y sin cwiar yn ffynnu a'n cyrraedd uchelfannau newydd o fywiogrwydd a rhagoriaeth. Mae Alia, Muz ac Aiman yn mynd â ni ar daith i ddarganfod mwy am eu bywydau a dathlu llawenydd cwiar De Asia.

**India's 1st Best Trans Model Agency**
**Dyddiad Rhyddhau:** 15 Tachwedd 2024
**Tystysgrif:** 12
**Talent o Gymru:** Cyfarwyddwr: Ila Mehrotra
**Crynodeb:** Mae Rudrani Chettri a'i ffrindiau yn sefydlu asiantaeth fodelau ar gyfer cymuned draws India. Ond mewn byd o ragfarn, trais ac ymyleiddio, a allant ennill eu lle ar y catwalk?

**London Recruits**
**Dyddiad Rhyddhau:** 22 Tachwedd 2024
**Tystysgrif:** Dim tystysgrif
**Talent o Gymru:** Cyfarwyddwr: Gordon Main, Cynhyrchydd: Geoff Arbourne, John Giwa-Amu, Peter Edwards, Gordon Main, Cast: Tom Evans, Alex Gwyther, Jack Ayres
**Crynodeb:** Ar anterth apartheid, yn y chwedegau hwyr / saithdegau cynnar, mae grŵp rhyngwladol o fyfyrwyr a gweithwyr dosbarth gweithiol sy'n byw yn Llundain yn ateb galw cyfrinachol Oliver Tambo am asiantiaid cudd. Mae'r ffilm yn rhannu stori strategaeth fentrus, ddi-drais Tambo i ddod â gobaith i'w bobl ddiobaith yn Ne Affrica.

**On Becoming a Guinea Fowl**
**Dyddiad Rhyddhau: I'w gadarnhau**
**Tystysgrif: I'w gadarnhau**
**Talent o Gymru:** Cyfarwyddwr: Rungano Nyoni
**Crynodeb:** Ar hyd ffordd wag yng nghanol y nos, mae Shula'n darganfod corff ei hewythr. Wrth i drefniadau'r angladd ddwyn ffrwyth o'u hamgylch, mae Shula a'i chefndryd yn taflu goleuni ar gyfrinachau eu teulu Sambiaidd dosbarth canol.

**Protein**
**Dyddiad Rhyddhau: Yn dod yn fuan**
**Tystysgrif:** Dim Tystysgrif – Disgwylir iddo fod yn 18

**Talent o Gymru:** Cynhyrchir gan: Craig Russell (Cynhyrchydd *Canaries*), Tom Gripper a Dan Bailey, Cast: Craig Russell, Kezia Burrows, Charles Dale, Richard Mylan, Kai Owen, Steven Meo
**Crynodeb:** Mae llofrudd cyfresol sy'n byw a bod yn y gampfa yn llofruddio ac yn bwyta deliwr cyffuriau lleol am eu protein, gan sbarduno rhyfel creulon a gwaedlyd dant am ddant rhwng gangiau cyffuriau cystadleuol yn anfwriadol.

Mae dyddiadau yn ddarostyngedig i newid, cadwch lygad ar wefannau sinemâu ar gyfer manylion am eu dangosiadau sydd ar ddod.

Mae ffilmiau Cymreig a ryddhawyd eisoes yn 2024 yn cynnwys: *The Almond and the Seahorse, Freud's Last Session, Unicorns, Gaza: A Story of Love and War, Chuck Chuck Baby, Kensuke's Kingdom, Swede Caroline, Seize Them!* My Happy Ending, Five Dates, Our Son, The Magic Flute, The Creator ac A Million Days

**- DIWEDD -**


**Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:**
Holly Dennison, Swyddog Marchnata ac Allgymorth, ar 02920 311 057 / holly@filmhubwales.org
Toki Allison, Swyddog a Wnaed yng Nghymru ar toki@filmhubwales.org
Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu, ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
Hana Lewis, Rheolwraig Strategol, ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org


## Nodiadau i Olygyddion:

### Am Ganolfan Ffilm Cymru

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sy'n dangos ffilmiau – o wyliau ffilmiau i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 300 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 347 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 589,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith ledled y DU o wyth canolfan a ariennir gan y Loteri Genedlaethol trwy'r Sefydliad Ffilmiau Prydeinig (BFI) sy'n ffurfio'r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Rheolir Canolfan Ffilm Cymru gan Chapter.

Rydym hefyd yn falch o fod wedi arwain ar strategaeth Sinema Gynhwysol DU ar ran BFI FAN 2017-23.
Gwefan, X (Twitter gant), Facebook, Instagram

### Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Genedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaoedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN

hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi.awduron, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaoedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

Gwefan

**Am BFI**
Rydym yn elusen ddiwylliannol, dosbarthydd y Loteri Genedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy:

- Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU
- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen cofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol. Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Jay Hunt.
Gwefan, Facebook, X (Twitter gant)

**Am Chapter**
Sefydlwyd Chapter gan artistiaid ym 1971, fel canolfan ryngwladol ar gyfer celfyddydau a diwylliant cyfoes. Mae'n gartref i'r celfyddydau, lle cynhyrchir a chyflwynir gwaith dyfeisgar, apelgar o'r radd flaenaf. Mae eu horiel yn comisiynu ac yn cynhyrchu arddangosfeydd o gelfyddyd gorau'r wlad a'r byd. Mae eu gofodau theatr yn llwyfan i waith arbrofol sy'n procio'r meddwl. Mae eu sinemâu yn cynnig ffilmiau rhyngwladol a heriol ochr yn ochr â nifer o wyliau a digwyddiadau. Mae'r sinemâu yn dod â rhagor o ffilmiau i ragor o bobl mewn rhagor o leoedd drwy Ganolfan Ffilm Cymru.

Ochr yn ochr â'i rhaglen graidd, mae Chapter hefyd yn gartref i 56 o artistiaid a chwmnïau creadigol sy'n gweithio yn eu stiwdios. O animeiddwyr a chwmnïau cynhyrchu ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau, i artistiaid, dylunwyr a ffotograffwyr, yn ogystal â chwmni fframio celf, argraffwyr a stiwdios recordio. Mae'r gymuned greadigol wrth galon

holl weithgarwch Chapter.

Daw’r rhaglen a’r gymuned ynghyd yn eu Caffi Bar sydd wedi ennill gwobrau. Gyda lle i hyd at 120 o bobl eistedd, mae’r caffi yn lle gwych i gyfarfod ffrindiau, darganfod lle tawel i weithio, neu i fwynhau diod neu damaid o fwyd blasus, ffres wedi’i baratoi â chynhwysion a brynwyd yn lleol, o fwydlen eang.
Gwefan, Facebook, X (Twitter gant), Instagram

**Am Gymru Greadigol**
Mae Cymru Greadigol yn un o asiantaethau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi datblygiad y diwydiant creadigol sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo twf ar draws y sectorau Sgrin, Digidol, Cerddoriaeth a Chyhoeddi, gan leoli Cymru fel un o'r lleoedd gorau yn y byd i fusnesau creadigol ffynnu.
Gwefan, X (Twitter gant)

-